


Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth, ac mae'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Cymraeg sy'n ffynnu hefyd yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal, mae gennym rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae gan strategaeth [Cymraeg 2050](#) dair thema â chydberthynas rhyngddynt.



Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru): **06/11/2025**

Cefndir y Strategaeth Dementia newydd (2026-2036)

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun i ymgynghori'n gyhoeddus arno, a fydd yn olynu'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia. Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ystyried yn benodol beth fydd effeithiau'r strategaeth newydd ar y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymarfer casglu tystiolaeth diweddar, sydd wedi llywio datblygiad y strategaeth ddrafft ddiweddaraf. Bydd yr asesiadau effaith yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r strategaeth lawn a therfynol pan gyhoeddir hi.

Dyma'r weledigaeth a gynigir ar gyfer y Strategaeth Dementia newydd:

Bydd Cymru yn genedl lle mae pobl sy'n byw gyda dementia yn cael eu parchu a'u cefnogi, ac yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol ag urddas yn eu cymunedau. Rydym am weld cymdeithas lle nad yw stigma yn cael ei dderbyn a lle mae mwy o ymwybyddiaeth o ddementia, a fydd yn helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd i fyw a chymdeithasu mewn cymunedau cynhwysol a thosturiol. Bydd hyn yn grymuso pobl i fyw'n annibynnol ag urddas yn eu cymunedau drwy ddiagnosis, gofal a thriniaeth. I gyflawni'r weledigaeth hon, rhaid wrth ymdrech unedig, drawslywodraethol ac amlasiantaeth, wedi'i seilio ar leisiau a phrofiadau'r rhai sy'n byw gyda dementia. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu dyfodol lle mae hawliau'n cael eu cynnal, lle mae cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a lle nad oes neb yn wynebu dementia ar ei ben ei hun.

Ffocws ar y Gymraeg

O'r cychwyn cyntaf, bu ffocws penodol ar ymgorffori'r Gymraeg drwy'r Strategaeth Dementia newydd i gyd.

I bobl sy'n byw gyda dementia, mae cael triniaeth yn eu hiaith eu hunain yn gallu bod yn arbennig o bwysig. Mae'n hanfodol sicrhau bod gofal a chymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dementia, a bod hyn yn cael ei gynniig yn rhagweithiol i bobl sy'n cael cymorth. Mae pobl â dementia yn cael eu nodi'n grŵp blaenoriaeth yn [Mwy na Geiriau](#) – cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y cynllun gweithredu newydd hwn ar gyfer dementia (a'i bwyslais ar leihau risg ac atal; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia; gwella diagnosis, triniaeth, gofal a chymorth ar gyfer dementia; cefnogi gofalcwyr di-dâl; cefnogi'r gweithlu; cefnogi ymchwil dementia; ac atebolrwydd) yn allweddol i gefnogi'r blaenoriaethau o ran y Gymraeg a gwella canlyniadau i'r grŵp blaenoriaeth hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadeirio grŵp Is-grŵp y Gymraeg ar y cyd â Chomisynydd y Gymraeg (gweler yr adran ar ymgysylltu â rhanddeiliaid) – gan gydnabod pwysigrwydd sylfaenol darparu mynediad at gymorth a gwasanaethau yn Gymraeg i bobl sydd â dementia.

Mae'r Strategaeth Dementia newydd yn cydnabod bod angen inni wneud mwy o gynnydd o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl

sy'n byw gyda dementia. Nid mater o ddewis yw cael gwasanaethau yn y Gymraeg - - mae'n angen clinigol ac yn hanfodol o ran sicrhau urddas siaradwyr Cymraeg. Bydd y strategaeth yn ystyried anghenion y Gymraeg yn ystod y cyfnod cyn y diagnosis, ar ôl y diagnosis ac yng ngofal hirdymor siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn golygu datblygu diwylliant sy'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg ac yn sicrhau ein bod yn monitro cynnydd ar hyn.

Egwyddorion a fydd yn berthnasol ar draws y meysydd blaenoriaeth

Rydym am sicrhau bod ein strategaeth dementia nesaf yn canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i bobl. Dyma'r egwyddorion y byddwn yn ymgynghori arnynt:

Canolbwyntio ar yr unigolyn: Cynnig gofal a chymorth sy'n gydlynol ac ar gyfer unigolion, gan sicrhau'r un pryd bod pobl yn cael eu grymuso, eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a'u trin ag urddas, tosturi a pharch.

Dull sy'n seiliedig ar hawliau: Cefnogi pobl i adnabod a datblygu eu cryfderau a'u galluedd eu hunain i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u gofal eu hunain. Sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n parchu, yn amddiffyn ac yn cyflawni hawliau unigolion, ac yn ystyried yn llawn yr hawliau penodol sydd gan rai grwpiau, er enghraifft, hawliau anabledd.

Cydgynhyrchu: Ffordd o weithio lle mae pobl â phrofiad bywyd ac ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn bartneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gofal a chymorth.

Mynediad, profiad a chanlyniadau cyfartal heb stigma a gwahaniaethu: Ar draws pob lleoliad, pob un o gamau dementia, a phob rhanbarth, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Mynediad cyfartal at wybodaeth, gan gynnwys i gefnogi iechyd yr ymennydd a gofal dementia
- Lleihau stigma a chamsyniadau am ddementia.
- Mynediad cyfartal at wasanaethau hanfodol eraill i bobl sy'n byw gyda dementia.
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar ofal.

Cydnabod croestoriadedd: deall sut y mae gwahanol agweddau ar hunaniaeth person—megis hil, rhywedd, iaith, rhywioldeb, anabledd, a mwy—yn cyfuno ac yn rhyngweithio i ffurfio eu profiadau. Bydd hyn yn edrych ar sut y mae ffactorau lluosog yn gorgyffwrdd i effeithio ar fywyd rhywun, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un agwedd yn unig ar y tro

Sicrhau **diagnosis amserol a chywir:** galluogi mynediad cynnar at gymorth a chynllunio.

Gweithredu **dull ataliol** trwy ganolbwyntio ar iechyd yr ymennydd, **gwella gwydnwch a lleihau risg**, ond cydnabod y bydd pobl yn dal i ddatblygu dementia a bod angen inni sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fyw'n iachach am gyfnod hirach.

Bydd gwasanaethau yn cael eu **hintegreiddio a'u cydgysylltu**, a byddant yn meithrin cydweithredu ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, tai a chymunedol ac yn datblygu **gofal a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth**.

Bydd **cymorth i ofalwyr di-dâl a theuluoedd** yn darparu cefnogaeth emosiynol, addysg, a mynediad at seibiant. Byddwn yn cydnabod yr hawliau sydd gan ofalwyr di-dâl a theuluoedd, gan sicrhau eu bod yn bartneriaid allweddol mewn gofal ac yn cael eu cefnogi i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio gofal.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn **datblygu ein gweithlu**, gan sicrhau y gall staff ar draws y sectorau iechyd, cymdeithasol a gwirfoddol adnabod symptomau dementia, deall effaith dementia a defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu gofal tosturiol, o ansawdd.

Byddwn yn cefnogi **ymchwil ac arloesi**, gan gynnwys drwy helpu pobl sy'n byw gyda dementia i fod yn rhan o waith ymchwil ar achosion, gofal a ffyrdd posibl o'i wella a chefnogi arloesi mewn modelau darparu gwasanaethau a gofal.

Bydd ystyried iaith person yn hanfodol i gyflawni'r egwyddor ar "degwch mynediad, profiad a chanlyniadau heb stigma a gwahaniaethu".

Tirwedd polisi ehangach

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r dull gweithredu o ran gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol – ac o ran gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, a cheisio atal problemau cyn iddynt godi. Wrth wneud hynny, mae'n gosod nodau llesiant, gan gynnwys Cymru iachach a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gan y maes iechyd a gofal cymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwn.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig a threftadaeth anniriaethol megis traddodiadau; mae'r celfyddydau'n cwmpasu sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bo chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chymunedol, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.⁸

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026](#) sydd â'r nod o at gynyddu nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac yn ei defnyddio. Mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn flaenoriaeth allweddol ac fe'i cefnogir gan Safonau'r Gymraeg.

Y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalmwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant, ac mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys "sicrhau hawliau a hawlogaethau". I lawer o siaradwyr Cymraeg, bydd sicrhau hawliau a hawlogaethau yn golygu defnyddio'u hiaith eu hunain i allu cyfathrebu a chwarae rhan fel partneriaid cyfartal yn eu gofal.¹

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i chynllunio i hybu llesiant a gofal sy'n canolbwyntio ar y person, ac mae'n cyd-fynd yn benodol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg. Mae'n cynnwys dyletswydd gyfreithiol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu anghenion unigolion yn holistaidd, sy'n cynnwys dewisiadau iaith a chyfathrebu ac mae gofyniad i gydymffurfio â'r Cynnig Rhagweithiol.,

Nod y fframwaith strategol [Mwy na Geiriau 2022-2027](#) yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.² Mae hyn yn parhau i nodi defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl fel un o'r grwpiau blaenoriaeth ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy i wella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau hyn, "nid dim ond er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth, ond er diogelwch a pharch i gleifion".

Y Cynllun Gweithredu Dementia blaenorol a'r cysylltiadau â Mwy na Geiriau

Roedd y Cynllun Gweithredu blaenorol ar gyfer Dementia yn cynnwys ymrwymïadau penodol o ran darparu gwasanaethau dementia dwyieithog a gweithio gyda'r byrddau iechyd i feithrin capasiti a gallu. Yn wir, cydnabyddir bod rhai pobl sydd â llesiant emosiynol gwael a/neu gyflyrau iechyd meddwl yn arbennig o agored i niwed oherwydd y gall eu gofal ddioddef os nad ydynt yn cael eu trin yn eu hiaith eu hunain.³ Mae'n arbennig o bwysig newid y sefyllfa lle mae'r cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth i ofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal gan y gwasanaeth ei hun. Enw'r egwyddor hon yw'r "Cynnig Rhagweithiol". Mae ymrwymïadau penodol yn Mwy na Geiriau sy'n cefnogi'r agenda hon yn uniongyrchol, gan gynnwys Cam Gweithredu 34: "Galluogi datblygu asesiadau ac adnoddau diagnostig Cymraeg safonol i gefnogi siaradwyr Cymraeg mewn meysydd blaenoriaeth a nodwyd fel iechyd meddwl, anableddau dysgu, a'r rhai â nam ar eu golwg, gan adeiladu ar waith sydd eisoes ar y gweill i ddatblygu set

¹ Llywodraeth Cymru (2014) [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#) Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

² *Mwy na Geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd pobl yn teimlo'n fregus wrth geisio gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac na fydd ganddynt ddigon o hyder i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Felly mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu cynnal y Gymraeg yn ddewis heb i gleifion orfod gofyn amdano. Mae'r [cynllun pum mlynedd \(2022-2027\)](#) ar gyfer y fframwaith *Mwy na Geiriau* yn nodi ymrwymïadau allweddol ar gyfer cyflawni'r fframwaith strategol.

³ *Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru (Mawrth 2021)* Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

o asesiadau safonol sydd ar gael yn genedlaethol ar gyfer siaradwyr Cymraeg â dementia."

Sut mae'r Strategaeth Dementia newydd yn cefnogi Mwy na Geiriau

Rydym wedi sicrhau bod y Strategaeth Dementia newydd yn helpu i gyflawni **Cynllun Pum Mlynedd Mwy na Geiriau (2022-2027)**. Ein gweledigaeth ar gyfer Mwy na Geiriau yw i'r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn cael gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano, a bod yr iaith yn hanfodol i ddarparu gofal diogel, teg sy'n canolbwyntio ar y person ac yn arwain at ganlyniadau gwell.

Mae'r fframwaith yn ysgogi cynnydd drwy bum thema allweddol:

1. Arweinyddiaeth a diwylliant
2. Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data.
3. Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.
4. Rhannu arferion da a dulliau galluogol.
5. Monitro ac adrodd.

Wrth wraidd y Strategaeth Dementia newydd mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaethau i ofyn amdanynt.

Mae hyn yn cydnabod y ffaith nad mater o ddewis yw darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg i unigolion sy'n byw gyda dementia, ond mater o angen.

Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys y paragraffau canlynol sy'n nodi'r gofyniad i roi sylw i'r Gymraeg:

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan unigolion yr hawl i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Rhaid i wasanaethau dementia wneud y canlynol:

- Darparu gwybodaeth, offerynnau asesu wedi'u dilysu, sy'n briodol o ran iaith, a deunyddiau cymorth dwyieithog.
- Sicrhau bod staff neu gyfieithydd ar y pryd sy'n siarad Cymraeg ar gael, yn enwedig yn ystod diagnosis a chwnsela.
- Cydnabod pwysigrwydd iaith o safbwynt hunaniaeth a llesiant emosiynol, yn enwedig i unigolion a allai droi'n ôl at eu hiaith gyntaf wrth i ddementia waethygu.
- Ymgorffori egwyddorion fframwaith "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol a gofal sy'n briodol yn ddiwylliannol.

Yn gryno, mae sicrhau bod gofal dementia yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod hyn yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i bobl sy'n cael cymorth, yn

hanfodol er mwyn cyfathrebu a gofalu'n effeithiol. Dylid darparu cymorth i unigolion yn eu dewis iaith heb iddynt orfod gofyn amdano.

Iechyd meddwl a dementia

Mae Mwy na Geiriau yn nodi hyn yn benodol: "Llesiant yr unigolyn sy'n bwysig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, felly mae angen i ni feddwl am yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, nid dim ond gwneud yr un pethau rydym wedi'u gwneud erioed oherwydd mai dyna sy'n teimlo'n gyfforddus i ni. Wedi'r cyfan, ym maes iechyd meddwl mae siarad eich iaith eich hun yn rhan o'r therapi." ⁴ Mae hyn yn berthnasol gan ein bod yn cydnabod bod effeithiau iechyd meddwl ar y rhai sy'n byw gyda dementia.

Pan fydd gan bobl sy'n byw gyda dementia anghenion iechyd meddwl sy'n cyddigwydd, byddwn hefyd yn rhoi sylw dyladwy i God Ymarfer Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 – y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad at wasanaethau a chymorth iechyd meddwl yng Nghymru. Mae hwn yn nodi bod angen rhoi sylw gofalus i ystyried anghenion iaith person yn gofyn am sylw gofalus, pan ddaw i deilwra cydlynu gofal i ddiwallu anghenion grwpiau penodol. Yn benodol: "Rhaid sefydlu proses gyfathrebu glir o ran iaith a diwylliant er mwyn sicrhau bod cleifion perthnasol a gofalwyr yn cael eu cynnwys o ddifrif, a'u bod yn derbyn y gofal a'r driniaeth orau bosibl. Yng Nghymru, mae hyn hefyd yn golygu y dylid cymryd pob cam posibl i sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar gael." ⁵ Mae rhagor o wybodaeth am asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ar gael [yma](#).

Disgwylir bod gwasanaethau dementia yng Nghymru yn cael eu hategu gan yr un egwyddorion – ac y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail deg: "Mae Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol ynglŷn â'r Gymraeg a manteision dwyieithrwydd ac yn cydnabod bod gwasanaethau dwyieithog yn hanfodol i ddarparu gofal o safon, asesu effeithiol, triniaeth a chynllunio gofal.. Dylid gwneud pob ymdrech i baru cleifion dwyieithog perthnasol ag ymarferwyr dwyieithog... Dylai cleifion perthnasol, lle bo hynny'n bosibl, gael yr opsiwn o asesu, trin a darparu gwybodaeth yn Gymraeg... dylid cymryd pob cam posibl i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i siaradwyr Cymraeg yn yr iaith sy'n diwallu eu hanghenion unigol orau, a bod gwasanaethau yn cael eu datblygu a'u cefnogi'n briodol i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg". At hynny: "Dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol hyrwyddo'r gwasanaethau dwyieithog sydd eisoes ar gael a chynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog pan fo prinder staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'n ddyletswydd ar fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol i gynnig y gwasanaeth priodol yn hytrach na bod yn rhaid i'r claf perthnasol ofyn amdano." ⁶

Fel y cydnabyddir uchod, gall pobl sy'n byw gyda dementia hefyd fod ag anghenion iechyd meddwl sy'n bodoli ar y cyd. Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn

⁴ Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol | LLYW.CYMRU Rhagair (tudalen 5).

⁵ Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 tudalen 7

⁶ Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 paragraff 1.11

gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl a chydlynwyr gofal i ddatblygu cynllunio gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar nifer o feysydd bywyd (a chanlyniadau i'w cyflawni) y gwyddom eu bod yn cael effaith ar unigolion, sef:

- Cyllid ac arian
- Llety
- Gofal personol a llesiant corfforol
- Addysg a hyfforddiant
- Gwaith a galwedigaeth
- Rhiant neu berthnasoedd gofalgar
- Cymdeithasol, diwylliannol neu ysbrydol
- Triniaeth feddygol a mathau eraill o driniaeth, gan gynnwys ymyraethau seicolegol.

Mae'r meysydd hyn yn adlewyrchu penderfynyddion cymdeithasol iechyd sy'n cael effaith ar iechyd meddwl pobl ac yn darparu dull sy'n seiliedig ar hawliau o ran cymorth iechyd meddwl. Rhaid i Gynlluniau Gofal a Thriniaeth hefyd nodi manylion y gwasanaethau sydd i'w darparu, neu'r camau sydd i'w cymryd, i sicrhau'r canlyniadau arfaethedig (gan gynnwys pa bryd a chan bwy y mae'r gwasanaethau hynny i'w darparu neu y mae'r camau hynny i'w cymryd) ac unrhyw ofynion o ran iaith neu gyfathrebu (gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg).

1. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**
 - ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith⁷ (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol:

Bydd y Strategaeth Dementia newydd yn cefnogi cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg yn uniongyrchol drwy ganolbwyntio ar wella diagnosis, triniaeth, gofal a chymorth dementia drwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy gefnogi'r gweithlu.

- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol:

Adnoddau Cymraeg newydd

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu adnoddau penodol a chynllun i gefnogi'r rheini sy'n gweithio gyda phobl â dementia. Mae'r cynllun newydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Dîm Polisi'r Gymraeg a'r Tîm Polisi Dementia yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynnyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru.

Nod y cydweithredu fydd creu rhaglen dysgu Cymraeg benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn a sicrhau bod adnoddau dysgu Cymraeg addas ar gael. Bydd yn cynnwys hyrwyddo cyrsiau hunanastudio ar-lein pwrpasol, ynghyd â chefnogaeth gan diwtor Cymraeg, a ddatblygir yn benodol ar gyfer y rheini sy'n gweithio gyda phobl â dementia. Bydd hyn yn arwain at well ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd defnyddio'r iaith gyda chleifion, ac yn cynyddu'r defnydd ohoni. Bydd gwahanol elfennau o'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd i unigolion sydd ag ychydig o Gymraeg neu ddim Cymraeg o gwbl i ddysgu geiriau sylfaenol i'w defnyddio gyda chleifion a theuluoedd sydd dan eu gofal.

Bydd cyfle hefyd i unigolion sydd â rhywfaint o Gymraeg, ond heb yr hyder i'w defnyddio mewn lleoliad gwaith, gael eu cefnogi i wneud mwy o ddefnydd ohoni wrth ofalu am gleifion a'u teuluoedd.

⁷ Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac yn gymunedau rhithiol sy'n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am gyflwyno'r [Cynllun Cymraeg Gwaith ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) – sy'n cynnwys cyflwyno'r Cwrs Croeso a'r Cwrs Codi Hyder. Mae'r cyrsiau hyn yn rhad ac am ddim ac ar gael ar-lein.

Cynllunio'r gweithlu

Fel y cydnabyddir uchod, bydd angen i ni sicrhau bod y gwaith o weithredu'r strategaeth dementia yn cyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol, sy'n cyfeirio at Gynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymrwymadau penodol i ddatblygu'r capasiti a'r gallu i wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru a [chynllunio'r Gweithlu ar gyfer y Gymraeg](#) yn llywio strategaethau recriwtio a chadw a hyfforddi a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu iechyd meddwl Cymraeg. Gofynnir i fyrddau iechyd adrodd ar sut maent yn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys darparu'r Cynnig Rhagweithiol, un o egwyddorion allweddol Mwy Na Geiriau.⁸

Mae Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgan: "Mae'r cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol yma'n cynnig cyfle heb ei ail i ni helpu i gryfhau system iechyd meddwl di-dor sy'n tynnu timau amlbroffesiwn ac aml-asiantaeth ynghyd trwy wasanaethau iechyd meddwl sy'n troi o gylch yr unigolyn... Wrth i'n poblogaeth heneiddio, rydyn ni'n gwybod y bydd mwy o newid mewn anhwylderau tymor hir a chymhleth, ac mae hynny'n golygu ein bod ni'n debygol o weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o afiechyd meddwl yn dioddef o amrywiaeth o anhwylderau corfforol hefyd, felly mae angen i ni sicrhau bod y cynllun hwn yn helpu i sicrhau llythrennedd iechyd meddwl ar draws ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n cydnabod hefyd fod angen diwallu anghenion ieithyddol ein poblogaeth – fel bod gofal ar gael yn Gymraeg i'r rhai sydd ei angen."⁹ Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o Gynllun Gweithlu Strategol newydd AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys (o 2022) contractau addysg newydd sy'n gosod disgwyliadau clir gan y darparwr addysg mewn perthynas â'r cymorth Cymraeg y gall pob myfyriwr ddisgwyl ei weld. Mae hyn yn cynnwys derbyn gwaith ysgrifenedig fel rhan o asesiad neu arholiad yn Gymraeg, asesu sgiliau ar ddechrau cwrs, darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau presennol. Drwy weithredu'r strategaeth hon, byddwn yn dysgu o'r gwaith a wnaed gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau pwyslais mwy penodol ar y gweithlu dementia ehangach.

⁸ Mwy na Geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd pobl yn teimlo'n fregus wrth geisio gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac na fydd ganddynt ddigon o hyder i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Felly mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu cynnig y Gymraeg yn ddewis heb i gleifion orfod gofyn amdano.

⁹ AaGIC (2022) *Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (tudalen 18).

Set Ddata Graidd Dementia

Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu set ddata graidd ar gyfer dementia. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ddata sy'n cael eu casglu yn gadarn ac yn addas i'r diben, a bydd yn cynnwys blaenoriaethu data demograffig, megis oedran, rhywedd, dewis iaith ac ethnigrwydd. Bydd hyn yn cefnogi ein gallu i gynllunio gwasanaethau ar sail anghenion a gofynion ein poblogaeth.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Drwy gydol datblygiad olynedd y Strategaeth Dementia, mae'r Tîm Polisi Dementia wedi rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n llawn i'r polisi ac i'r ymarfer. Cyflawnwyd hyn drwy raglen gynhwysfawr o ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys fforymau wedi'u targedu, digwyddiadau cenedlaethol, a chyfarfodydd strwythuredig.

Mae gweithgareddau allweddol wedi cynnwys cymryd rhan yn Fforwm Gofal Iechyd Cymru, cyfranogiad gweithredol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, cyfraniadau i Gynhadledd Genedlaethol Mwy na Geiriau, a Chyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg rheolaidd. Mae'r ymrwymïadau hyn wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i gasglu adborth, rhannu arferion gorau, a nodi blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth Gymraeg mewn gofal dementia. O ganlyniad, mae'r broses ddatblygu wedi'i llywio gan sylfaen dystiolaeth gadarn ac ymrwymiad clir i ymgorffori'r Gymraeg ym mhob cam, gan sicrhau bod gwasanaethau'n briodol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd.

Rôl Is-grŵp y Gymraeg

Drwy gydol 2025, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal pump o gyfarfodydd Is-grŵp y Gymraeg a Dementia. Roedd dau gyfarfod cyntaf 2025 ym mis Chwefror ac Ebrill. Trafododd y cyfarfodydd hyn amserlen y grŵp dros y flwyddyn i ddod, canlyniadau'r arolwg cyhoeddus a chanfyddiadau'r gwerthusiad o'r Strategaeth Dementia. Penderfynwyd y byddai'r grŵp yn canolbwyntio ar feysydd allweddol dementia yn y tri chyfarfod canlynol. Nod pob cyfarfod fyddai darparu tystiolaeth ac adborth er mwyn creu rhestr o flaenoriaethau i lywio datblygiad y strategaeth newydd. Y tri maes trafod allweddol fyddai Cyn-Ddiagnosis, Ôl-Ddiagnosis a Gofal Hirdymor. Mae'r argymhellion terfynol a gyflwynwyd gan y grŵp wedi llywio'r iteriad hwn o'r cynllun a byddant yn parhau i lywio'r strategaeth fanylach derfynol a'r cynllun cyflawni cysylltiedig.

- ♦ **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau¹⁰ sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)**

Fel y nodir yn y cefndir, bydd y Strategaeth Dementia newydd (2026-2036) yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg o bob oed. Datblygwyd y strategaeth mewn modd a fydd yn sicrhau bod effeithiau ar siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn ystod yr holl gamau sy'n berthnasol i ddatblygu a chyflawni polisïau.

Bydd y Strategaeth Dementia (2026-2036) yn cefnogi'n uniongyrchol wella mynediad at wasanaethau a chymorth dementia yn Gymraeg. Bydd yn gwneud hyn drwy brif ffrydio ystyriaethau o ran y Gymraeg i ddatblygiadau gweithlu a phrosesau cynllunio.

Mae'r Strategaeth Dementia (2026-2036) wedi'i hategu gan yr egwyddorion canlynol:

Canolbwyntio ar yr unigolyn: Cynnig gofal a chymorth sy'n gydlynol ac ar gyfer unigolion, gan sicrhau'r un pryd bod pobl yn cael eu grymuso, eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a'u trin ag urddas, tosturi a pharch.

Dull sy'n seiliedig ar hawliau: Cefnogi pobl i adnabod a datblygu eu cryfderau a'u galluoedd eu hunain i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u gofal eu hunain. Sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n parchu, yn amddiffyn ac yn cyflawni hawliau unigolion, ac yn ystyried yn llawn yr hawliau penodol sydd gan rai grwpiau, er enghraifft, hawliau anabled.

Cydgynhyrchu: Ffordd o weithio lle mae pobl â phrofiad bywyd ac ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gofal a chymorth.

Mynediad, profiad a chanlyniadau cyfartal heb stigma a gwahaniaethu: Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn hygyrch ac yn briodol i bawb. Bydd sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd ar gael yn y Gymraeg neu yn yr iaith a ffefrir yn allweddol i'r egwyddor hon. Mae hyn yn cynnwys parhau i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol, er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at y system mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau iddynt.

Cydnabod croestoriadedd: deall sut y mae gwahanol agweddau ar hunaniaeth person - megis hil, iaith, rhywedd, rhywioldeb, anabled, a mwy—yn cyfuno ac yn rhyngweithio i siapiau profiadau. Bydd hyn yn edrych ar sut y mae ffactorau lluosog yn gorgyffwrdd i effeithio ar fywyd rhywun, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un agwedd yn unig ar y tro

¹⁰ Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd a weir o wasanaethau Cymraeg.

- ♦ **Sut y byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu manteisio arnynt a'u defnyddio mewn ffordd yr un mor hawdd â gwasanaethau Saesneg?**

Casglodd **Arolwg y Strategaeth Dementia**, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024, farn ar y meysydd allweddol y dylem ganolbwyntio arnynt drwy gydol y broses ymgysylltu. Mae gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal i ddeall llwyddiannau'r cynllun hwnnw yn well ac i ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud.

Bydd ymatebion i'r arolwg hwn yn helpu i lunio sgysiau yn ystod y gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer y cynllun dementia newydd. Rydym yn awyddus i feithrin dealltwriaeth o'r pynciau allweddol yr hoffai rhanddeiliaid eu trafod. Man cychwyn yw'r holiadur hwn ar gyfer cynnal sgws hirach ac ni fwriedir iddo gynnig yr holl atebion ynghylch cynnwys y cynllun terfynol.

Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd sut y gallwn ddatblygu'r cynllun newydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg.

- **Adnoddau a gwasanaethau dwyieithog:** Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylid sicrhau bod yr holl adnoddau, dogfennau a gohebiaeth yn cael eu darparu'n ddwyieithog ac y dylid cofnodi dewisiadau iaith ar gofnodion iechyd. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd rhwydweithiau cymorth gyda siaradwyr Cymraeg, gan ddefnyddio technoleg fel ffonau sy'n cyfieithu, a chynnwys grwpiau lleol fel grwpiau Menter. Awgrymodd rhai ymatebwyr rannu adnoddau Cymraeg (gan gynnwys cyfieithwyr ar y pryd) gyda sefydliadau eraill.
- **Hyfforddiant:** Cafwyd argymhellion ynghylch gwneud dysgu Cymraeg yn gyfle datblygu hanfodol i staff, cymell y rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth dementia i ddysgu Cymraeg, a sicrhau bod canran ofynnol o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi. Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd y dylid cynnig cyrsiau Cymraeg am ddim i staff iechyd a gofal cymdeithasol, a chynyddu'r oriau o hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael am ddim, yn enwedig i'r rhai ym maes gofal cymdeithasol.
- **Cyflogaeth a recriwtio:** Tynnwyd sylw hefyd at annog Byrddau Iechyd i hyrwyddo cyflogaeth siaradwyr Cymraeg, recriwtio siaradwyr Cymraeg mwy rhugl i feysydd gwasanaeth, a chynnig dosbarthiadau Cymraeg fel rhan reolaidd o swydd clinigydd.
- **Integreiddio diwylliannol:** Soniwyd hefyd am ddefnyddio cerddoriaeth yn llwyfan ar gyfer cynnwys y Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o apiau fel Assist My Life i storio cofnodion a dewisiadau personol.

Heriau a phryderon

- **Perthnasedd rhanbarthol:** Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod pwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg yn amrywio yn rhanbarthol ac yn cwestiynu'r angen am wasanaethau o'r fath mewn ardaloedd lle nad oes ond ychydig o siaradwyr Cymraeg.
- **Dyrannu adnoddau:** Roedd pryderon ynglŷn â dyrannu cyllid cyfyngedig ac ellid cyfiawnhau blaenoriaethu gwasanaethau Cymraeg o ystyried presenoldeb siaradwyr iaith eraill mewn rhai ardaloedd.
- ♦ **Pa dystiolaeth / ddata a ddefnyddiwyd gennych yn sail i'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth oddi wrth siaradwyr Cymraeg neu grwpiau sydd â diddordeb yn y Gymraeg?**

Cynhaliodd Cymdeithas Alzheimer arolwg i gael mewnwelediad i brofiadau personol pobl y mae dementia ac amhariad gwybyddol ysgafn (MCI) yn effeithio arnynt yng Nghymru, o ran cael mynediad at wasanaethau cymorth dementia. Y nod yw dysgu beth sy'n bwysicaf i bobl a sut maen nhw'n dymuno cael eu cefnogi drwy wasanaethau cymorth dementia cyfrwng Cymraeg.

Anelwyd yr arolwg at y canlynol:

- Pobl sy'n byw gyda dementia neu MCI a gofalcwyr di-dâl sydd wedi byw yng Nghymru yn ystod y 3 mis diwethaf.
- Gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr sydd wedi darparu gwasanaeth yng Nghymru i bobl yr effeithir arnynt gan ddementia dros y 3 mis diwethaf.

Tystiolaeth a nodwyd drwy'r Gwerthusiad o'r Strategaeth Dementia 2018 i 2022

- Datblygu dull cyson o asesu'r cof drwy gynhyrchu offer a chanllawiau safonedig o amgylch y broses, gan gynnwys yn y Gymraeg.
- Datblygu dull cyson o asesu'r cof gydag offer a chanllawiau safonol, gan gynnwys darpariaethau yn y Gymraeg.
- Yng ngham 2, roedd ymarferwyr yn cydnabod y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg ond roeddent yn ansicr ynghylch gallu eu sefydliad i ddarparu gofal yn Gymraeg pe bai'r angen yn codi. Roedd hyn yn amrywio yn ôl dwysedd y siaradwyr Cymraeg mewn ardal. Trwy gydol y cyfnod gwerthuso, dywedodd llawer o siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia a'u gofalcwyr fod cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg yn anodd; ac nad oes llawer o ystyriaeth o'r effeithiau diwylliannol i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf o beidio â chael mynediad at gymorth yn eu dewis iaith.

- Adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud i ysgogi staff sy'n gweithio ym maes gofal dementia i gymryd gwersi Cymraeg; a rhannu adnoddau staff i gryfhau'r cynnig gofal a chymorth dementia yn Gymraeg ledled Cymru.
- Dylid annog staff gofal a chlinigol i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio unrhyw Gymraeg maen nhw'n ei gwybod, hyd yn oed os mai dim ond ychydig eiriau neu ymadroddion ydyw, fel y'i hyrwyddir yn Mwy na Geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
- Parhau i nodi anghenion penodol pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y rhai nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Darganfuwyd y canlynol yn sgil tystiolaeth a ddeilliodd o adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth a gynhaliwyd gan swyddogion y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi:

- I gleifion sy'n defnyddio'r Saesneg fel ail iaith, mae oedi'n aml cyn iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd sydd ar gael; yn wir, gall yr ofn o beidio â chael eu deall neu o gamddeall cyngor meddygol atal unigolion rhag ceisio cymorth¹¹.
- At hynny, mae rhwystrau iaith yn llesteirio cyfathrebu effeithiol rhwng darparwyr gofal iechyd a chleientiaid, gan arwain at gamddiagnosis, triniaethau amhriodol a/neu golli manylion cynnil mewn gofal cleifion¹². Mae hyn yn ei dro yn arwain at ofal is-optimaidd ac anfodlonrwydd â'r gofal a geir.¹³
- Mae rhwystrau iaith yn amharu ar y modd yr ymlynir wrth driniaethau a'r defnydd a wneir o wasanaethau atal a sgrinio, gan arwain at ragor o oedi cyn y gellir cael gofal amserol. Yn ei dro, gall hyn arwain at ddulliau gwael o reoli clefydau cronig ac, yn y pen draw, at ganlyniadau iechyd gwael¹⁴.
- Mae iaith yn arbennig o bwysig mewn gofal iechyd meddwl, oherwydd mae'r ddeialog rhwng cleifion ac ymarferwyr yn allweddol wrth gynnal asesiadau diagnostig ac wrth ddarparu triniaeth¹⁵.
- Hefyd, gwelir bod rhwystrau iaith yn amharu ar ddatblygu cydberthynas therapiwtig rhwng y cleient a'r ymarferydd¹⁶.
- Er nad yw'r pwynt hwn yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg, mae rhai astudiaethau presennol sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a rhwystrau iaith yn dangos yn gyson bod aelodau lleiafrifoedd ieithyddol yn gwneud llai o ddefnydd o

¹¹ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

¹² [Language proficiency and adverse events in US hospitals: a pilot study - PubMed](#)

¹³ [The need for more research on language barriers in health care: a proposed research agenda - PubMed](#)

¹⁴ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

¹⁵ [Language Barriers in Mental Health Care: A Survey of Primary Care Practitioners](#)

¹⁶ [Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study - PMC](#)

wasanaethau iechyd meddwl o gymharu â grwpiau eraill, ar gyfer lefelau gofid tebyg^{17 18}.

- Gwelir bod defnyddio cyfieithwyr anhyfforddedig neu aelodau teuluol yn gallu arwain at broblemau'n ymwneud â chamddehongli a chyfrinachedd¹⁹.
- Yn ôl gwaith ymchwil a oedd yn edrych yn benodol ar y Gymraeg, er bod y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru hefyd yn siarad Saesneg ac felly'n ddwyieithog, mewn sefyllfaoedd o straen a bregusrwydd, gwelwyd bod llawer yn teimlo'n fwy cyfforddus a hyderus yn cyfathrebu yn Gymraeg wrth siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol²⁰. Ymhellach, efallai y bydd pobl sy'n gwbl rugl yn y Saesneg yn colli eu meistrolaeth ar yr iaith ac yn troi at siarad Cymraeg pan fyddant yn flinedig, yn sâl neu o dan straen²¹; mae hyn yn dangos bod angen i'r gwasanaethau fod ar gael yn newis iaith y claf.
- Datgelodd dadansoddiad o gyfraddau hunanladdiad a amheuir rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 mai Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau drwy amheuaeth o hunanladdiad (14.1 fesul 100,000; er nad oedd yn ystadegol yn wahanol yn sylweddol i'r gyfradd yng Nghymru gyfan²²).
- Mae ymchwil hefyd wedi dangos bod cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith y gweithlu ffermio ac amaethyddiaeth²³. Yn achos y ddwy boblogaeth, Cymraeg yw eu hiaith gyntaf yn aml.
- Dengys y dystiolaeth pa mor bwysig yw adeiladu gweithlu clinigol amlieithog, yn cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, cwnselwyr proffesiynol trwyddedig a gwirfoddolwyr²⁴.

♦ Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Nid yw'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil a nodir ac a ddyfynnir yn yr adolygiad tystiolaeth yn benodol i'r Gymraeg; yn hytrach mae'n canolbwyntio ar gyfranogwyr sy'n siarad Saesneg fel ail iaith, y daw'r rhan fwyaf ohonynt o grwpiau ethnig lleiafrifol. O'r herwydd, er bod rhwystrau iaith yn broblem, mae'n bosibl fod gwahaniaethau diwylliannol eraill hefyd yn effeithio ar allu pobl i gael mynediad at ofal a thriniaeth briodol. Er mwyn gallu deall yn well beth yw effaith y Gymraeg ar gael cymorth priodol ac effeithiol, mae angen cynnal rhagor o ymchwil.

¹⁷ Delara M. Social determinants of immigrant women's mental health. Adv Public Health. 2016;2016:1–

11. <https://doi.org/10.1155/2016/9730162>.

¹⁸ Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study | BMC Health Services Research | Full Text (biomedcentral.com)

¹⁹ Impacts of English language proficiency on healthcare access, use, and outcomes among immigrants: a qualitative study | BMC Health Services Research | Full Text (biomedcentral.com)

²⁰ Roberts, G., 1991. The use of the Welsh language in nurse-patient communication within a bilingual health care setting. Traethawd MN heb ei gyhoeddi. Prifysgol Cymru, Caerdydd.

²¹ Thomas, G., 1998. The experiences of Welsh speaking women in a bilingual maternity service. Traethawd M.Sc. heb ei gyhoeddi. Prifysgol Cymru, Caerdydd.

²² Adroddiad Blynnyddol: Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig 2023-24 - Iechyd Cyhoeddus Cymru

²³ RRH: Rural and Remote Health article: 8189 - Understanding the factors contributing to farmer suicide: a meta-synthesis of qualitative research

²⁴ Overcoming linguistic barriers to accessing mental health services (diplomaticourier.com)

♦ Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwybod bod y Strategaeth Dementia yn llwyddiant os yw diagnosis yn amserol, os yw gofal yn gyson, os yw pobl â dementia a'u gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gynnwys yn Gymraeg, os yw staff yn fedrus, ac os oes tystiolaeth (o ddata a phrofiad bywyd) y gall pobl fyw'n dda gyda dementia ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn barnu llwyddiant y Strategaeth Dementia yn benodol o ran y Gymraeg oherwydd ei hymrwymadau polisi cyfreithiol (Safonau'r Gymraeg, fframwaith *Mwy na Geiriau*, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae newidiadau arfaethedig allweddol yn cynnwys:

1. Mynediad at wasanaethau cyfrwng Gymraeg

- A all pobl â dementia a'u gofalwyr gael mynediad at asesiadau, cynlluniau gofal, grwpiau cymorth, a seibiant yn Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.
- Monitro a yw'r "Cynnig Rhagweithiol" (gwasanaethau yn Gymraeg heb orfod gofyn) yn cael ei ddarparu'n gyson.

2. Staffio a'r Gweithlu

- Olrhain nifer a chyfran y staff sydd wedi cael hyfforddiant dementia sy'n gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- Tystiolaeth bod byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cynllunio anghenion y gweithlu yn Gymraeg – gan ddefnyddio [canllawiau AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

3. Profiad pobl sy'n byw gyda dementia

- Casglu adborth gan bobl â dementia a'u teuluoedd ynghylch a oedd eu hanghenion iaith yn cael eu parchu.
- Gwirio a yw pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus ac yn deall pan fyddant yn cael eu cefnogi yn Gymraeg – mae hyn yn arbennig o bwysig ar gamau diweddarach dementia, pan fydd pobl yn aml yn dychwelyd i'w hiaith gyntaf.

4. Gweithgareddau ymwybyddiaeth dementia

- Twf gweithgareddau ymwybyddiaeth dementia sy'n gweithredu'n ddwyieithog.
- A yw sefydliadau'r sector gwirfoddol (e.e. Cymdeithas Alzheimer Cymru, grwpiau cymorth lleol) yn darparu gwasanaethau cymorth cymheiriaid yn Gymraeg.

5. **Data ac adrodd**

- Monitro arferol o ran pa mor aml y caiff gwasanaethau eu cynnig yn Gymraeg a'u defnyddio.
- Adroddiadau gwerthuso sy'n ystyried canlyniadau'r Gymraeg yn benodol ac yn nodi bylchau.

6. **Cysondeb â'r polisi**

- A yw gofal dementia yn cyd-fynd â gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: *Cymraeg 2050 (anelu at darged o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)*.
- Dangos bod gwasanaethau dementia yn cyfrannu at wneud y Gymraeg yn "iaith bob dydd" mewn gofal yn ogystal â bywyd cymunedol.